

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 14 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

- 1.1 Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Gayle Hudson, June Jeremy, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Chris Franks, Cathy Clark, David Elis-Williams, Marjorie Williams, Kaitlin Crisp, Caroline Davies, Gerry Jenson, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Heather Willbourn, Dafydd Rhys; Julie Cook (hyd at ddiwedd cofnod 7). Roedd gan y cyfarfod gworwm trwy gydol yr amser.
- 1.2 Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cyllid ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol), Stephen Thomas (Ysgrifennydd a Chlerc y Cwmni), Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd); Cecilia Forsythe (arsyllwr ar ran y staff); Terri Bishop (arsyllwr Unite the union - hyd at ddiwedd cofnod 9).
Jayne Ireland (Rheolwr Rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru), Clare Evans, Sian Ellis-Jones, Paula Ewers (aelodau staff yn Y Drenewydd), Esther Thorpe a nifer o ddysgwyr Dosbarth Celf yng Nghymdeithas Ponthafren – ar gyfer cinio a chofnodion 1 a 2 yn unig.
- 1.3 Ymddiheuriadau: Iwan Hywel, Guy Wallace Smith, Nick Taylor.

2. Rhyngweithio â dysgwyr a chyflwyniad ar ein rhaglen waith yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru

Daeth myfyrwyr o'r dosbarth Celf a gynhaliwyd y bore hwnnw yng Nghymdeithas Ponthafren yn y Drenewydd (mudiad sydd yn hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol) i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, ynghyd â'u tiwtor, Esther Thorpe. Disgrifiodd tri dysgwr y gwaith roeddent yn ei wneud ar hyn o bryd a beth roedd y cwrs/cyrsiau roeddent yn eu hastudio a'r cymorth a gawsant drwy hynny yn ei gynrychioli yn eu bywydau.

Yna, cyflwynodd Jayne Ireland gynodeb o'n darpariaeth addysg yn gyffredinol yn y rhanbarth lle'r oedd hi'n Rheolwr Rhanbarthol. Fe wnaeth y sleidiau PowerPoint gynnwys gwybodaeth am ddysgwyr, mathau o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, graddfa ac amrywiaeth ddaearyddol y rhanbarth, a bod ei natur wledig yn ffactor yn llywio'n gwaith yno.

Yn y drafodaeth ddilynol, dywedwyd wrth aelodau'r Cyngor fod sgiliau TG/TGCh fwyfwy'n rhan o gyrsiau llythrennedd a sgiliau sylfaenol, yn hytrach nag yn opsiwn am gwrs pwrpasol unigol. Trafodwyd y nodweddion cyffredin rhwng cyrsiau undebau llafur ar iechyd meddwl a'r math o ddarpariaeth a roddir drwy Bonthafren. Hefyd, soniwyd am gyrsiau iaith Gymraeg/cyrsiau dwyieithog yn y rhanbarth, oedd ar hyn o bryd ar lefel mor isel, a honiad bod y galw amdanynt yr un mor isel, efallai oherwydd bod darparwyr eraill yn cyflwyno cyrsiau o'r fath.

3. Tri phrotocol ar gyfer aelodau'r Cyngor ar ymgymryd â'u cyfrifoldebau ac ar gyfathrebu

Cynhaliwyd sesiwn dan arweiniad y Clerc ar hyn, gyda'r protocolau ysgrifenedig drafft yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth. Cwmpasodd ei gyflwyniad faterion fel cyfrinachedd, ystyriaethau moesol wrth wasanaethu'n aelod o'r Cyngor, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng bod yn gorff llywodraethol oedd yn rheoli a bod yn gorff llywodraethol oedd yn gwasanaethu amryw grwpiau

buddiant dilys, amrywiol yn y sefydliad. Arweiniodd trafodaeth ddefnyddiol ymhlith aelodau'r Cyngor at y casgliadau canlynol am y 3 phrotocol:

- i) ystyriwyd bod y protocol ar gyfrifoldebau a dyletswyddau yn fuddiol fel arweiniad i'w ychwanegu at y deunyddiau sefydlu/hyfforddi cyffredinol i lywodraethwyr. Fodd bynnag, teimlodd nifer mai Egwyddorion Nolan oedd y ddogfen ganllaw bwysicaf yn y maes hwnnw o hyd ac y dylid cyfeirio at honno yn gyntaf wrth ystyried priodoldeb gweithredoedd llywodraethwr. **Dylid amserlennu bod llywodraethwyr yn cael eu hatgoffa'n flynyddol am y materion uniondeb ac ymddiriedaeth oedd wrth wraidd dogfennau o'r fath hynny; ac roedd adolygiad o'r polisi ar chwythu'r chwiban fel yr oedd yn berthnasol i aelodau'r Cyngor yn flaenoriaeth yn y tymor byrrach.**
- ii) teimlwyd bod y grŵp WhatsApp posibl yn rhy gyfyngol ac yn gysyniad gwahanol i'r hyn a gynnigwyd yn wreiddiol, sef fforwm anffurfiol. **Felly, cytunwyd na ddylid bwrw ymlaen â chreu'r grŵp hwn;**
- iii) ni chafwyd cytundeb ar greu cyfres o gyfeiriadau e-bost @addysgoedolion.cymru/ @adultlearning.wales i rai o aelodau'r Cyngor (neu bob un ohonynt). **Felly, rhoddwyd y gorau i'r cynnig hwnnw hefyd a chytunwyd yn hytrach fod rhannu cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn preifat presennol ymhlith aelodaeth y Cyngor yn ddull digonol o hwyluso cyfathrebu rhwng pawb, pan fyddai ei angen.**

4. Ymweliad gan Wasanaeth Sicrwydd a Llywodraethu Darparwyr (PAGS) Adran Addysg Llywodraeth Cymru

Digwyddodd hyn dros gyfnod o ddeuddydd bythefnos yn gynt ac roedd yn ymweliad a ddisgrifiwyd gan staff PAGS eu hunain yn ymweliad 'arferol' ganddynt â chorff sector addysg bellach. Roedd amseru'r ymweliad yn ymateb i gyflwyniad ysgrifenedig dienw i Lywodraeth Cymru, yn codi amheuan am ba mor dderbyniol oedd rhai o systemau'r sefydliad wrth ddelio â dysgwyr. Ystyriwyd bod yr ymweliad yn un llwyddiannus, gan na amlygwyd unrhyw anghysondebau mewn prosesau mewnol na phrosesau dyfarnu ac ni fu unrhyw gam-drafod data ychwaith. Deallwyd mai tacluso ychydig faterion o ran ein systemau/gweithdrefnau fyddai'r argymhellion am welliannau o ganlyniad i'r ymweliad. Ni fyddai'r adroddiad ysgrifenedig cyfrinachol gan PAGS yn cael ei ddangos i ni, serch hynny, a byddai'n cael ei anfon yn hytrach i Adran Dwyll Llywodraeth Cymru, swyddfa'r Gweinidog perthnasol ac at uwch weision sifil yn unig. Felly, ni ystyriwyd bod y mater mor ddifrifol â'r hyn a gyflëwyd ar lafar yn wreiddiol i'r sefydliad, ac ni ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth o gysylltiadau amhriodol ag unrhyw gorff dyfarnu.

5. Diweddariad am safle Harlech – Theatr Ardudwy: cynnig i drafod terfynu'r brydles yn gynnar

Esboniodd Kathryn Robson, gan gyfeirio at y papurau a oedd yn cynnwys diweddariad ar iechyd a diogelwch yn gysylltiedig ag adeilad y theatr, mai cymaint oedd y dirywiad yng nghyflwr yr adeilad, bod ei awditoriwm bellach wedi'i gau rhag cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd. Roedd ymweliad â'r safle gan y gwasanaeth tân y diwrnod cynt wedi datgan bod modd parhau i ddefnyddio'n hystafelloedd dosbarth yn adeilad y theatr, ond nid yr awditoriwm. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 7 Chwefror gyda chynrychiolwyr Theatr Ardudwy: y nod o hyd oedd ceisio osgoi cweryl cyhoeddus rhwng y ddau sefydliad elusennol. Roedd y berthynas yn sicr o dan straen ar hyn o bryd, fodd bynnag, ac roedd cytundeb prydles amwys â'r Theatr, yn dyddio o ddegawdau ynghynt, a olygai nad oedd hi'n

eglur p'un ai'r pryddleswr neu ddeiliad y bryddles oedd â chyfrifoldeb am atgyweiriadau/gwelliannau penodol, yn cymhlethu'r sefyllfa.

Yn naturiol, roedd llywodraethwyr yn pryderu am raddfa anawsterau iechyd a diogelwch a strwythurol mor arwyddocaol, fisoedd yn unig ar ôl cytuno i roi'r gorau i adeilad Wern Fawr a throsglwyddo'n staff a'n haddysgu i'r opsiwn dewisol, diogelach, yn adeilad y theatr. Nid oedd ateb yn bosibl ar hyn o bryd i'r cwestiwn gan aelodau am ymrwymadau ariannol posibl cyfan yn gysylltiedig â'r adeilad hwnnw, nac am gost prynu'r bryddles. Nid oedd trafodaethau â Theatr Ardudwy wedi dechrau eto. Er ein bod o'r farn bod ein hymrwymadau yn cynnwys cost ariannol gymharol gymedrol ar gyfer anghenion adferol tymor byr, gallai dehongliad y Theatr o raniad y cyfrifoldebau amrywio. Cadarnhaodd staff y gallai defnyddio ffactorau eraill, fel dyledion heb eu talu yn y gorffennol yn gysylltiedig â thaliadau rhent y Theatr a'r hyn oedd yn ddyledus i ni ar hyn o bryd o'i chytundeb tenantiaeth, fod yn ffordd o ddylanwadu yn ystod trafodaethau yn y dyfodol.

Cytunodd y Cyngor i'r argymhellion yn y papur eglurhaol, sef: bod Grŵp Llywio Harlech yn dechrau trafodaethau i sefydlu gwerth ildio ar gyfer y bryddles â Theatr Ardudwy, er mwyn terfynu'r bryddles yn gynnar a sicrhau meddiant gwag ar adeilad y theatr; a bod y Grŵp yn adrodd cynnydd yn ôl i'r Cyngor ac unrhyw argymhellion pellach yr oedd yn dymuno'u gwneud, ar adeg briodol.

6. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Tachwedd 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cafodd cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd tri mater wedi codi:

Cofnod 2 - Diweddariad ar benodiadau/etholiadau aelodau'r Cyngor: erys dau benodiad i'w gwneud i'r Cyngor o hyd. Nid oedd penodi ymgeisydd arbennig â phrofiad ariannol a phrofiad sector preifat sylweddol wedi dwyn ffrwyth, er gwaethaf cyfweiliad llwyddiannus, gan fod yr unigolyn hwnnw yn byw yn Surrey ac, felly, ni fyddai'n gallu cyflawni'r ymrwymadau teithio ychwanegol cysylltiedig. Er y cysylltwyd â sefydliadau oedd yn cynrychioli lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru i gael ymgeiswyr posibl drwyddyn nhw, **cytunwyd mai cylch arall o hysbysebu agored (y gellid gwahodd unigolion penodol oedd yn hysbys i aelodau presennol y Cyngor i wneud cais) oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio yn awr – y cyfan yn seiliedig ar beidio â gwario o gwbl, defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol a phroses ymgeisio a chyfweld wrthrychol.** [Enwyd ychydig ymgeiswyr a allai fod yn addas yn ystod y drafodaeth.] O ran mater ar wahân, disgwyliad penderfyniad cyn hir gan y Comisiwn Elusennau ynghylch rôl Nick Taylor fel aelod Cyngor 'wedi'i wahardd' dros dro oherwydd nifer yr oriau a weithiodd fel tiwtor i'r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf;

Cofnod 9 - Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer mis Tachwedd 2017: Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog: holwyd a fu gweithredu eto ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw – byddai hynny'n cael ei ateb o dan gofnod 7;

Cofnod 14 - Safonau Iaith Gymraeg/Ymgorffori Dwyieithrwydd: Esboniodd Cath Hicks gynnwys y papurau cysylltiedig. Roedd Dafydd Rhys o'r farn bod y Polisi Iaith Gymraeg ar adnoddau dynol yn wan yn Adran 10 (Recriwtio), lle y dylai fod yn debycach i'r polisiâu cyfatebol a fu ar waith yn CHWEAN a CC YMCA Cymru cyn i'r Safonau ddod yn egwyddor arweiniol. Roedd hyn cyn ystyried ymestyn ein hymrwymadau i allbwn addysgol Cymraeg/dwyieithog – testun cynifer o drafodaethau diweddar y Cyngor a Phwyllgorau. Hefyd, dywedodd y Cadeirydd ei fod o'r farn y dylai'r Cyngor ddangos ei ddiffuantrwydd ei hun trwy fabwysiadu polisi ar gyfer ymrwymadau'r Cyngor ynghylch y mater hwn. Ymatebodd Cath Hicks gan ddweud bod y canolbwyntio ar ofynion y Safonau yn fewnol o ystyried terfyn amser y Comisiynydd, sef 1 Ebrill, gyda'r posibilrwydd o flaenoriaethu agweddau ehangach wedi hynny. Roedd e-bost gan Iwan Hywel, yn adlewyrchu'i brofiad o'r Grŵp mewnol ar

Safonau'r Gymraeg, yn gadarnhaol ar y cyfan o ran cefnogi'r mentrau presennol, ond roedd hefyd yn amlygu'r angen am fwy o bwyslais ar allbynnau addysgu Cymraeg. Rhagwelwyd y byddai Gweinidog newydd y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn rhoi mwy o bwys ar amlygrwydd ein darpariaeth allanol yn hytrach nag ar gydymffurfio mewnol. **Mynegodd y Cyngor ei ddiolch i Clare Grist am ei gwaith, derbyniodd yr egwyddor o flaenoriaethu'r 'Safonau' mewnol yn y tymor byr dros y 2 fis nesaf, a phwysleisiodd yr angen am ganolbwyntio ar y ddarpariaeth allanol fel blaenoriaeth wedi hynny.**

7. Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer mis Ionawr 2018

Ymatebodd Kathryn Robson ymhellach i'r pwyntiau amrywiol am y safonau/darpariaeth iaith Gymraeg trwy gyfeirio at adrannau perthnasol yn ei hadroddiad, gan gynnwys cynnal dadansoddiad gwaelodlin i ganfod lefel ein darpariaeth addysgol ar hyn o bryd. Byddai hynny ar yr agenda ar gyfer Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ddiwedd Chwefror yn y lle cyntaf, ac roedd ymwybyddiaeth gyffredinol bod angen cynnig nifer uwch o ddsbarthiadau dwyieithog/cyfrwng Cymraeg: roedd angen i sylwadau fel y rheiny a wnaed yn gynharach - bod 'bach iawn o alw' amdanynt - gael eu cyfiawnhau gyda thystiolaeth, neu eu cywiro. Roedd sgiliau magu plant i rieni/neiniau a theidiau, posibiladau galwedigaethol gan gynnwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chysylltiadau â Phatagonia, yn enghreifftiau a enwyd ar gyfer y potensial i ehangu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Roedd darlun boddhaol i adrodd amdano o ran gwelliant i broffil ansawdd cyrsiau, gyda chyfradd llwyddiant o 89.8% yn dangos y sefyllfa ar gyfer deilliannau 2016-17, sef cynnydd o 2.8% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mewn addysg undebau llafur, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyflogwyr gymryd yr awenau ar 'gymorth cyntaf iechyd meddwl' drwyddi draw. Cafodd canran isel (sef 12%) y ddarpariaeth heb achrediad yn rhanbarth y de-ddwyrain ei chwestiynu: roedd yr agenda iechyd meddwl ac unigrwydd, ynghyd â gweithgareddau cangen, yn awgrymu y dylai'r ganran fod yn uwch. Cynigiodd un aelod Cyngor y dylid nodi canmlwyddiant rhoi'r bleidlais i fenywod yng ngweithgareddau Fforymau Rhanbarthol ac mewn mannau eraill yn ystod y flwyddyn.

Roedd disgwyl i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd gyfarfod ag Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ar 1 Chwefror, a byddent yn gofyn bryd hynny am eglurhad ynghylch cyfeiriad yr Adolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned at y dyfodol, er ei bod hi'n ansicr pa mor fanwl fyddai'r cefndir a roddir i'r Gweinidog newydd am faes addysg oedolion.

8. Adolygiad o strwythurau Pwyllgor a Grŵp, gan gynnwys y siartiau llywodraethu presennol a'r rhai arfaethedig, a'r pwerau dirprwyedig i bob Pwyllgor

Wrth i'r sefydliad esblygu, cynigiwyd diwygiad pellach i'r strwythur llywodraethu i adlewyrchu'r realiti ar hyn o bryd. **Cytunwyd ychwanegu taliadau at gylch gwaith y Pwyllgor Chwilio, ychwanegu 'Marchnata' at deitl a rôl y Grŵp Aelodaeth ac Ymgyrchoedd, ad-drefnu adrodd gan Grwpiau i Bwyllgorau penodol, ac adlewyrchu'r newidiadau hyn trwy restru pwerau dirprwyedig ar gyfer pob Pwyllgor.**

Codwyd cwestiynau ynghylch p'un a oedd craffu ar TG yn rhy wan, yn enwedig oherwydd bod y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym: ystyriwyd bod hyn yn cael sylw digonol yng nghylchoedd gwaith Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a'r Pwyllgor Adnoddau. Cafwyd trafodaeth ar arwyddocâd y llinellau tor ar y siart yn cysylltu'r ddau Grŵp Rheoli Gweithredol â'r strwythur ac roedd un aelod Cyngor o'r farn ei fod yn rhy gynnar i gynnal adolygiad o'r fath eto, gan nad oedd y Pwyllgorau wedi cwblhau cylch blynyddol llawn o waith eto. Yn hytrach, **cytunwyd y dylid ailedrych ar y strwythur yn ystod hydref 2018, i weld sut roedd y trefniant diwygiedig yn gweithio.**

9. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017

Nodwyd cofnodion cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor, ynghyd â'r ffaith nad oedd cworwm yno. Cyfeiriodd David Elis-Williams, fel Cadeirydd y pwyllgor, at ddau bwynt: bod Mark Baines wedi dweud eto y byddai costau ailstrwythuro yn dod o fewn ffrwd y gyllideb a glustnodwyd ar ei gyfer yn 2017-18; a'r awgrym **bod cofnodion presenoldeb ar gyfer aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor yn cael eu hychwanegu, o 2017-18 ymlaen, at y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn rhan o'r Datganiadau Ariannol. Cymeradwywyd hyn gan y Cyngor.**

10. Cyfrifon rheoli ar gyfer y 5 mis hyd at ddiwedd Rhagfyr 2017

Esboniodd Mark Baines sut byddai ailbrisiad negyddol o ran safle Harlech yn effeithio ar ffigurau'r asedau sefydlog, yr incwm gohiriedig a'r gronfa ailbrisiu. Yn fwy cadarnhaol, roedd darparu addysg yn cyd-fynd â'r targed, roedd cyfansymiau arian parod wrth gefn yn gryf o hyd ac roedd bach iawn o amrywiannau i'r gyllideb. Oherwydd bod yr holl ffigurau yn seiliedig ar ddata dibynadwy, nid oedd ganddo unrhyw bryderon yr oedd am eu cyfleu i'r Cyngor: roedd o'r farn y gallai roi lefelau cymharol uchel o sicrwydd, gyda'r adolygiad 6-mis o'r flwyddyn ariannol ar fin cychwyn. O ran swyddfa Llanisien (gogledd Caerdydd), roedd darpar brynwr wedi edrych arni ond nid oedd unrhyw gamau pendant yn ei chylch eto. Cadarnhaodd fod costau cynnal a chadw ar y safle hwnnw yn isel ar hyn o bryd.

11. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018

Nodwyd y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod, ynghyd â'r cofnodion eu hunain. Dywedodd Chris Franks, Cadeirydd y Pwyllgor, fod y broses dendro ar gyfer archwilio allanol am y 5 mlynedd nesaf ar fin dechrau; bod yr archwilwyr mewnol yn ymddangos yn fodlon â materion o ran rheoliadau; a bod y pwynt ynghylch rhoi dyletswyddau'r gyflogres ar contract allanol yn destun sylw.

12. Y Gofrestr Risg, Ionawr 2018

Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio sylwadau am y Gofrestr ac roedd yn adlewyrchu fformat newydd: dywedodd un aelod o'r Cyngor mai dyma'r Gofrestr Risg fwyaf defnyddiol a darllenadwy a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Pwysleisiwyd yr awydd risg isel ar gyfer y sefydliad. Cytunwyd y byddai'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cael ei ymgorffori yn y Gofrestr nesaf. Ar sail yr hyn a glywyd gynt yn ystod yr agenda am Harlech, roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai'r risgiau a restrwyd ynghylch ystadau ac iechyd a diogelwch fod yn uwch na'r lefelau risg a nodwyd ar hyn o bryd – hyd yn oed yn sgil y camau lliniarol a grybwyllwyd.

13. Adborth ar y cyfarfod a hunanasesu perfformiad

Gofynnodd y Cadeirydd eto am sylwadau ar strwythur y cyfarfod a'i weithdrefnau cysylltiedig. Y farn gyffredinol oedd bod y cyfraniad gan ddysgwyr a'r cyflwyniad rhanbarthol wedi bod yn llwyddianus, er bod rhai wedi cwestiynu p'un a oedd y lleoliad yn ddigon mawr o ystyried y nifer a oedd yn bresennol yn rhan gyntaf y cyfarfod. Er bod un aelod wedi rhoi sylw ar y gwelliant yn ansawdd cyffredinol y papurau i'r Cyngor dros y 12 mis blaenorol, pwysleisiodd aelod arall bwysigrwydd cadw

at yr ymrwymiad i'w dosbarthu wythnos waith gyfan cyn pob cyfarfod fel bod amser darllen/paratoi digonol - arfer a gyflawnwyd yn anaml iawn ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylid datblygu rhan o wefan y sefydliad ar gyfer llywodraethwyr a fyddai wedi'i diogelu gan gyfrinair er mwyn cael at wybodaeth benodol. Gwerthfawrogodd Cecilia Forsythe ei chyfle i fod yn bresennol fel arsyllwr, a'r ffaith bod y Cyngor wedi ymroi i gynnal cyfarfodydd ledled Cymru.

14. Dyddiadau'r Cyngor wedi'u cadarnhau ar gyfer y dyddiadur

12 Canol Dydd, Dydd Gwener 23 Mawrth 2018: Bryn Menai, Bangor
 Diwedd Mai: Iard y Cowper, Caerdydd
 Diwedd Gorffennaf: Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 30 Ionawr 2018 – gweler cofnodion 15 a 16, wedi'u cofnodi ar wahân.

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy arni
Cofnod 3	Tri phrotocol i aelodau'r Cyngor	Dylid trefnu bod llywodraethwyr yn cael eu hatgoffa'n flynyddol am y materion uniondeb ac ymddiriedaeth oedd wrth wraidd dogfennau o'r fath, ac y dylid amserlennu hynny; ac roedd adolygiad o'r polisi ar chwythu'r chwiban fel yr oedd yn berthnasol i aelodau'r Cyngor yn flaenoriaeth yn y tymor byrrach. Ni fyddai grŵp WhatsApp na chyfeiriadau e-bost sefydliadol yn cael eu creu, dim ond rhannu cyfeiriadau e-bost personol a rhifau ffôn ymhlith y Cyngor.	ST
Cofnod 5	Diweddariad ar safle Harlech – cynnig i drafod terfynu'r brydles yn gynnar gyda Theatr Ardudwy	Grŵp Llywio Harlech i ddechrau trafodaethau i sefydlu gwerth ildio ar gyfer y brydles â Theatr Ardudwy, er mwyn terfynu'r brydles yn gynnar a sicrhau meddiant gwag ar adeilad y theatr; a'r Grŵp i adrodd cynnydd yn ôl i'r Cyngor ac unrhyw argymhellion pellach yr oedd yn dymuno'u	KR / DE-W

		gwneud, ar adeg briodol.	
Cofnod 6	Penodi aelodau'r Cyngor	Cytunwyd mai cylch arall o hysbysebu agored oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio yn awr – yn seiliedig ar beidio â gwario o gwbl, defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol a phroses ymgeisio a chyfweld wrthrychol.	ST
Cofnod 6	Safonau Iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg	Mynegodd y Cyngor ei ddiolch i Clare Grist am ei gwaith, derbyniodd yr egwyddor o flaenoriaethu'r 'Safonau' mewnol yn y tymor byr dros y 2 fis nesaf, a'r angen am ganolbwyntio ar y ddarpariaeth allanol fel blaenoriaeth wedi hynny.	KR / Clare Grist
Cofnod 8	Adolygiad o strwythurau Pwyllgor a Grŵp	Cytunwyd ychwanegu taliadau at gylch gwaith y Pwyllgor Chwilio, ychwanegu 'Marchnata' at deitl a rôl y Grŵp Aelodaeth ac Ymgyrchoedd, ad-drefnu adrodd gan Grwpiau i Bwyllgorau penodol, ac adlewyrchu'r newidiadau hyn trwy restru pwerau dirprwyedig ar gyfer pob Pwyllgor. Cytunwyd y dylid ailedrych ar y strwythur yn ystod hydref 2018, i weld sut roedd y trefniant diwygiedig yn gweithio.	KR / ST
Cofnod 9	Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau	Dylai gofnodion presenoldeb ar gyfer aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor cael eu hychwanegu, o 2017-18 ymlaen, at y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n rhan o'r Datganiadau Ariannol.	ST / MB / Adele Gatt